

SL(5)753 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd"); a'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") drwy osod dyletswyddau cyfatebol ac ategol ar weithredwyr o ganlyniad i'r cyfyngiadau ychwanegol a osodwyd ar deithwyr gan y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y canlynol:

- diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr hysbysu teithwyr am y ddyletswydd newydd i drefnu profion ar ôl cyrraedd yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; a
- diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr fel y bydd:
 - (a) yn ofynnol i weithredwyr wirio bod personau sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin ar wasanaeth trafndiaeth masnachol drwy borthladd môr, hofrenfa neu faes awyr yng Nghymru, wedi gwneud trefniadau, cyn iddynt gyrraedd Cymru, i gael profion am y coronafeirws ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8 ar ôl iddynt gyrraedd Cymru; ac
 - (b) yn ofynnol i weithredwyr gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw personau, nad ydynt yn bersonau esempt, yn cyrraedd porthladd yng Nghymru ar wasanaeth trafndiaeth, o fan sydd y tu allan i'r ardal deithio gyffredin os ydynt wedi bod yn un o'r gwledydd ar y rhestr goch yn ystod y 10 diwrnod diwethaf.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn [llythyr](#) at y Llywydd, dyddiedig 19 Chwefror 2020.

Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl. Roedd hyn yn angenrheidiol o ystyried yr angen i weithredu'n gyflym ac ar sail pedair gwlad er mwyn cefnogi'r mesurau diogelwch pellach a gyflwynwyd yn yr ymdrech i atal perygl i iechyd y cyhoedd gan bobl sy'n teithio i Gymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir cyfiawnhau'r diwygiadau yn y Rheoliadau hynny er mwyn atal clefydau heintus rhag lledaenu a/neu y caniateir yr ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



“Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd ar fyrder, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.”

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ffurfiol ei wneud mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.”

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

24 Chwefror 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee